**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Addysg

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 27 Hydref 2022 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A M Day | B Hopkins | Y V Jardine |
| S M Jones | S Joy | S E Keeton |
| J D McGettrick | F D O'Brien | A J O'Connor |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| Beth Allender | Elizabeth Lee | |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd Robert Smith, Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sarah Hughes | Rheolwr Tîm Strategaeth Addysg |
| Rhodri Jones | Pennaeth y Gwasanaeth Cyflawniad a Phartneriaeth |
| Helen Morgan-Rees | cyfarwyddwr addysg |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): A Davis

---

## 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Dim

## 2 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Dim

## 3 Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod ar 15 Mawrth 2022 gan y Panel.

## 4 Llythyrau

Nododd y Panel y llythyr at Aelod y Cabinet yn dilyn cyfarfod y Panel ar 15 Mawrth 2022.

5 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

6 **Rôl y Panel Perfformiad**

Amlinellodd y Cynullydd rôl y Panel Craffu Perfformiad Addysg, gan dynnu sylw at y pwyntiau allweddol ynghylch gweithio'n effeithiol.

7 **Diweddariad ar y Gyfarwyddiaeth Addysg**

(a) Amlinellodd Rheolwr Tîm y Strategaeth Addysg, Sarah Hughes, yr arolygiad Estyn diweddar o Wasanaethau Addysg yn Abertawe. Dywedodd wrth y Panel:

- Mae Estyn yn darparu un dyfarniad ynglŷn ag a ddylid rhoi gwasanaethau addysg awdurdod lleol mewn categori sy'n 'peri pryder sylweddol'. Barnodd Estyn nad yw gwasanaethau addysg yn Abertawe yn perthyn i'r categori hwn.
- Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 1 Medi 2022 gan nodi llawer o gryfderau a nodweddion nodedig.
- Gwahoddwyd yr awdurdod lleol i gyflwyno dwy astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â chefnogaeth gref i wella ysgolion ac ansawdd y gefnogaeth mewn ysgolion prif ffrwd ar gyfer disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio, a fydd wedyn yn cael eu cyhoeddi gan Estyn.
- Gwnaed dau argymhelliad. Y cyntaf yw 'adolygu darpariaeth ôl-16 i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion pob un o'r dysgwyr', a'r ail yw 'cryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob oedran ac ardal o'r awdurdod lleol'.
- Dechreuwyd ar y gwaith o fynd i'r afael â meysydd yr argymhellion cyn yr arolygiad. Mae strategaethau newydd ar gyfer darpariaeth ôl-16 a darpariaeth alwedigaethol yn cael eu datblygu a bydd rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, chweched dosbarth, sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu sy'n seiliedig ar waith yn ymwneud â datblygiad parhaus y strategaethau hyn.
- Cymeradwyodd y Cabinet Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Abertawe ym mis Gorffennaf 2022, sydd bellach wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae gweledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella cynllunio ar gyfer darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg yn Abertawe wedi ei chynnwys yn y cynllun hwn. Bydd cynllun cyflawni'n cael ei ddatblygu gyda rhanddeiliaid o Bartneriaeth Addysg Gymraeg Abertawe yn ystod tymor yr hydref.
- Cytunodd Aelod y Cabinet, y Cyfarwyddwr a'r Panel ac roeddent yn falch ei fod wedi bod yn arolygiad hynod lwyddiannus ac yn adlewyrchiad da o'r gwaith sy'n cael ei wneud yn ein hysgolion. Pwysleisiodd Aelod y Cabinet er ein bod wedi cael y canlyniad gwych hwn, nad ydym yn mynd i fod yn hunanfodlon ond yn bwriadu gwella'n barhaus. Diolchodd hefyd i waith y Panel yn ei rôl fel cyfaill beirniadol.
- Roedd y Panel am ddiolch i bawb a oedd yn gysylltiedig â chael y canlyniad rhagorol hwn.

(b) Cyflwynwyd adroddiad trosolwg sy'n rhoi manylion am y strwythur a'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer Addysg ar hyn o bryd gan Rheolwr Tîm y Strategaeth Addysg.

(c) Cyflwynodd Rhodri Jones, Pennaeth y Gwasanaethau Cyflawniad a Phartneriaeth, nodyn briffio ysgrifenedig i'r Panel ar Partneriaeth, sef y bartneriaeth addysg ranbarthol, gan gynnwys diweddariad o'r sefyllfa bresennol. Eglurodd mai

- trefniant cydweithredol rhanbarthol yw'r bartneriaeth newydd a gynlluniwyd i hyrwyddo rhagoriaeth ym mhob un o'n hysgolion a'n lleoliadau. Mae'n endid cyfreithiol ac yn gwasanaethu tri awdurdod lleol yn ne-orllewin Cymru - Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.
- Mae'r model newydd wedi mynd i'r afael â phryderon blaenorol (mewn partneriaethau blaenorol) ynghylch cyfathrebu ac o ganlyniad, mae perthynas gref yn datblygu ar draws y rhanbarth.
- Prif swyddogaeth y bartneriaeth yw darparu gwasanaeth dysgu proffesiynol i ysgolion ac arweinwyr ysgolion.
- Mae'r gwelliant craidd mewn ysgolion yn parhau fel rhan o ddarpariaeth yr awdurdodau lleol a bydd swyddogion Partneriaeth yn ategu at y ddarpariaeth pan fo hynny'n briodol. Gan esbonio bod hyn yn osgoi dyblygu cefnogaeth ac yn ychwanegu gwerth am arian.

(Ch) Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaeth Cyflawniad a Phartneriaeth fanylion am Faniffesto Disgyblion Abertawe hefyd. Gan esbonio bod Cymuned Dysgu Proffesiynol Llais y Disgybl (o athrawon a disgyblion ysgolion uwchradd) wedi dod at ei gilydd i ddatblygu maniffesto disgyblion ar gyfer Abertawe a chyflwynwyd hwn i'r cyngor ar 7 Gorffennaf 2022. Amlinellodd 'yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw' ynghyd ag ystod o syniadau arloesol a chadarnhaol y dylai Cyngor Abertawe eu hystyried fel ffordd o helpu i wella cymunedau Abertawe. Y bwriad yw i'r Maniffesto Llais y Disgybl fwydo i mewn i gynllunio ac ymgynghori'n gorfforaethol, gan gynnwys ar gyfer y Cynllun Corfforaethol newydd ac i adolygu Abertawe 2023.

## 8 Trafod Rhaglen Waith 2022/2023 a chytuno arni

Cytunodd y Panel ar eu rhaglen waith ar gyfer 2022/2023 gan ychwanegu:

- Diweddariadau ar gynnydd gyda dau argymhelliad sydd yn adroddiad Estyn o Wasanaethau Addysg yn Abertawe.
- Gwersi coginio mewn ysgolion.

Cytunodd y Panel hefyd i edrych ar sut y gallant gynnwys lleisiau plant a phobl ifanc yn eu gwaith.

## 9 Er gwybodaeth - rhestr arolygiadau ysgolion unigol diweddar

Nododd y Panel y rhestr arolygiadau Estyn unigol ddiweddar.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.40 pm

**Cadeirydd**